**Cystadleuaeth Farddoniaeth Divine 2012**

# FY SIOP SIOCLED

**Dychmygwch pe bai gennych eich siop siocled eich hun. Dyma eich cyfle i ysgrifennu cerdd wych amdani!**

Ac ystyriwch o le y byddech yn cael y coco, er mwyn gwneud y siocledi hyfryd? Mae ffermwyr coco ar draws y byd yn gweithio'n hynod o galed, ond yn aml, maent yn derbyn cyflog tila iawn. Ond mae cwmni Masnach Deg Divine yn gwneud pethau'n wahanol – mae'r 45,000 o ffermwyr sy'n darparu'r coco i Divine yn cael pris teg am eu ffa, a hefyd cyfran dda o'r elw o werthiant y siocled.



Dyma'r tro cyntaf i ni redeg y gystadleuaeth yn Gymraeg a'r beirniad yw Eurig Salisbury, Bardd Plant Cymru.



Llun gan Keith Morris

*'Dwi'n hoffi pob math o siocled – siocled poeth, siocled tywyll, siocled sy'n crensian, siocled gyda chnau, siocled gydag ychydig o garamel yn y canol … fe fyddwn i wrth fy modd yn darllen cerddi tebyg – cerddi poeth, cerddi tywyll, cerddi sy'n crensian, cerddi gyda chnau ac, wrth gwrs, cerddi gydag ychydig o garamel yn y canol!'*

Eurig Salisbury

## Sut i gystadlu

Rhaid i bob cerdd ein cyrraedd erbyn y **25ain o Ebrill 2012**. Dylai pob cerdd Gymraeg gael ei hanfon i schoolscymru@cymorth-cristnogol.org neu ei phostio at:
Cymorth Cristnogol,
5 Heol yr Orsaf, Radur,
Caerdydd CF15 8AA
.

## Telerau ac amodau

- Rhaid bod pob cerdd yn waith gwreiddiol yr ymgeisydd. Gellir derbyn y gwaith ar ffurf papur neu e-bost. Nodwch enw, cyfeiriad ysgol a chategori oedran y bardd ar bob ymgais ar wahân.
- Yn anffodus, dim ond ymgeision o Brydain Fawr a Gogledd Iwerddon gellir derbyn.
- Mae dau gategori oedran: 7-11, a 12-16.
- Bydd gan bob categori enillydd ag ail a thrydydd (os yw'r beirniaid yn caniatáu.)
- Bydd yr enillwyr ym mhob grŵp oedran yn derbyn bocs hyfryd o siocledi Divine a £30 mewn tocynnau llyfrau.
- Bydd yr ail a'r trydydd yn derbyn pecyn o nwyddau Divine.
- Yn anffodus, ni allwn ddychwelyd unrhyw gerddi.
- Cedwir yr hawl i ddefnyddio unrhyw gerddi ym mha fodd bynnag y mae Divine Chocolate a Cymorth Cristnogol yn dymuno, neu'n gweld yn briodol. Bydd cerddi sy'n ennill yn cael eu cyhoeddi ar wefannau Divine Chocolate a Cymorth Cristnogol.



Cefnogir Cystadleuaeth Barddoniaeth Divine gan: Divine Chocolate Ltd., y cwmni siocled sy'n perthyn i ffermwyr coco; a Cymorth Cristnogol, asiantaeth ddatblygu tramor sy'n un o sylfaenwyr Divine Chocolate.